

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cynradd Is

Gweithgaredd 8: Gallwn ei wneud

Amcan dysgu

Datblygu gwaith tîm drwy wneud cynnyrch.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Cysylltiadau

- Cyfathrebu
- Gweithio gydag eraill

Trefniadaeth

- Rheoli adnoddau

Gweithgareddau Dysgu

Fel dosbarth trafodwch “Sut ydym am wneud y cynnyrch?” Cyflwynwch gysyniadau adnoddau a chynhyrchion.

Eglurwch bwysigrwydd gweithio gyda'i gilydd a gwerth pob unigolyn o fewn y tîm.

Mewn grwpiau, cytunwch a dynodwch dasgau a pharthau gwaith i unigolion neu grwpiau, gan bwysleisio eu rôl yn y tîm. Bydd hyn yn dibynnu ar y cynnyrch sy'n cael ei ddewis ond fe allai gynnwys trefniant llinell gynhyrchion e.e. torri, cyd-osod, pecynnu.

Casglwch ynghyd a threfnwch yr adnoddau mae eu hangen a gofynnwch i'r disgyblion cydweithredu i wneud prototeip o'r cynnyrch.

Gofynnwch i'r disgyblion drafod beth maent yn hoffi ei wneud orau a sut fydden nhw'n rhannu'r tasgau yn wahanol y tro nesaf a pha newidiadau os oes rhai, sydd angen i wneud cynnyrch o ansawdd.

Gofynnwch i'r disgyblion ystyried:

- Beth ydym angen i wneud ein cynnyrch/darparu ein gwasanaeth?
- Pa eitemau sydd gennym eisoes?
- Pa bethau allwn ni eu hailgylchu neu eu cael am ddim?
- Beth fyddwn angen ei brynu?
- Ble fydd ein gweithle?
- Pa bryd fyddwn yn gweithio ar ein prosiect? (yn y dosbarth, amser cinio, ar ôl ysgol).
- Pwy allwn gael i'n helpu? (rhieni, athrawon/disgyblion eraill).

Gweithgaredd 8: Gallwn ei wneud

Cynradd Is

Canlyniad dysgu

Bydd disgyblion wedi cael profiad o weithio mewn grwpiau bach i gwblhau tasg.

Adnoddau sydd eu hangen

- Deunyddiau (yn dibynnu ar y cynnyrch)



Cwricwlwm ar gyfer Cymru

1. Meysydd Dysgu a Phrofiad

Gwyddoniaeth a thechnoleg

- Mae syniadau dylunio a pheirianeg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ateb anghenion a gofynion cymdeithas.



2. Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Llythrennedd

Siarad

- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu



Rhifedd

- Llythrennedd rhifedd

